Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Pwnc Daearyddiaeth, Amaeth a'r Amgylchedd

Hydref 2017

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd–destun

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg. http://bit.ly/2rtflxT

Mae’r Cynllun Pwnc Daearyddiaeth, Amaeth a’r Amgylchedd yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Proses

Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd i sefydliadau addysg uwch ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu

Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cynllun academaidd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o’r radd flaenaf i’r myfyrwyr sy’n dewis astudio o leiaf cyfran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i’r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae’r Cynllun Pwnc Daearyddiaeth, Amaeth a’r Amgylchedd yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o’r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi, a’r cyfleoedd a’r heriau sy’n benodol i’r meysydd a gynrychiolir yn y cynllun.

Mae’r cynllun hwn yn cwmpasu meysydd Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Amaethyddiaeth, a Gwyddor Amgylcheddol (yn cynnwys Gwyddorau Eigion a Choedwigaeth).

Mae prifysgolion Aberystwyth, Abertawe a Bangor, a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Coleg Sir Gâr wedi datblygu eu darpariaeth a chynnal lefelau cynaliadwy o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiad mewnol.

Mae Prifysgol De Cymru yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae Prifysgol Caerdydd wedi datblygu rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar radd Cynllunio Gwlad a Thref.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori’r pwnc yn genedlaethol oddi mewn i’r Cynllun Academaidd,

blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae prifysgolion Aberystwyth, Abertawe, Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Coleg Sir Gâr yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol 2016/17[1]				
Sefydliad Addysg Uwch	**Maes**	**Darpariaeth (fesul blwyddyn)**	**Staff**	**Myfyrwyr**
Prifysgol Abertawe	Daearyddiaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	4 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg 2 aelod llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 104 sy'n gallu siarad Cymraeg[2] Bl1–Bl3
Prifysgol Aberystwyth	Daearyddiaeth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	5 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 5 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynnwys 1 darlithydd Gwyddor Amgylchedd	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 59 sy'n gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3
	Amaeth a Gwyddor Amgylchedd	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	12 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

[1] Data gan y sefydliadau. Dynodir ffigurau llai na 5 gyda *
[2] Nid oes modd cadarnhau a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

			8 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Penodwyd aelod staff Gwyddor Anifeiliaid yn ystod haf 2017	68[3] yn siarad Cymraeg yn rhugl
Prifysgol Bangor[4]	Daearyddiaeth, Amaeth a Gwyddor Amgylchedd (sy'n cynnwys Gwyddorau Eigion a Choedwigaeth)	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg Ôl-radd – cynigir cwrs MA/MSc Rheolaeth Amgylcheddol Gynaliadwy bob yn ailflwyddyn gyda 66% ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg	5 aelod o staff llawn amser a 1 rhan-amser yn siarad Cymraeg 5 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg[5] 66 sy'n gallu siarad Cymraeg Bl1–Bl3

[3] Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn cynnwys holl fyfyrwyr Athrofa y Gwyddorau, Amgylcheddol a Gwledig, sydd yn cael eu cyfrifo yn y cynllun Gwyddorau Naturiol.

[4] Ceir nifer o fodiwlau blwyddyn gyntaf sy'n gyffredin i fyfyrwyr Ysgol Amgylchedd Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth, Gwyddorau Eigion, ac Ysgol Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Bangor.

[5] Mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor wedi eu cyfrifo ar draws y Coleg Gwyddorau Naturiol. O ganlyniad, cyfrifir myfyrwyr Bioleg yn y ffigwr siaradwyr Cymraeg.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Coleg Sir Gâr (Campws Gelli Aur)	Amaeth	120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn ar y radd Sylfaen FdSC a'r radd BSc mewn Amaeth	2 aelod o staff rhan-amser yn siarad Cymraeg ac 8 aelod staff llawn amser yn siarad Cymraeg 2 aelod o staff rhan-amser a 5 aelod llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 6 yn astudio ym mhob blwyddyn 43 yn siarad Cymraeg

Cyflwynwyd ffurflen cynllunio pynciol gan Brifysgol De Cymru a nodwyd bod rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Cyflwynwyd gwybodaeth gan Brifysgol Caerdydd a nodwyd bod rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar y radd Cynllunio Gwlad a Thref.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	Mae profiad y myfyriwr yn ganolog i astudio gradd yn ddwyieithog. Cynigir amrediad o brofiadau i fyfyrwyr gan gynnwys: • modiwl 'Methodoleg Maes', sef cwrs preswyl penwythnos dwys i fyfyrwyr o Abertawe, Aberystwyth a Bangor. Mae'r modiwl hwn wedi ei gynnig ers dros bymtheg mlynedd. Mae'n parhau'n llwyddiannus ac yn denu cofrestriadau myfyrwyr ar draws y sefydliadau. Awgrymir bod y math hwn o gydweithio a'r gefnogaeth gysylltiol gan y Coleg yn parhau. • Gwaith maes ag agweddau rhyngwladol pe dymunir hynny a chyfle i ymgymryd â'r gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. • Blwyddyn mewn diwydiant/profiad gwaith. • Modiwl Geomorffoleg Afonol sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr dau sefydliad arall i gael eu haddysgu gan arbenigwr mewn sefydliad gwahanol. • Tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg.
Darlithwyr	Y flaenoriaeth yw cynnal y lefelau staffio presennol. Mae nifer o'r darlithwyr sydd bellach yn darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi derbyn ysgoloriaeth PhD gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y gorffennol ac awgrymir bod hyn yn parhau er mwyn sicrhau ystod o ddarlithwyr sy'n cynnig amrediad o fodiwlau/arbenigeddau.
Cwricwlwm	Mae'r tri sefydliad sy'n darparu Daearyddiaeth yn cydweithio ar ddarparu modiwl preswyl dwys 'Methodoleg Maes' sy'n dwyn myfyrwyr ac arbenigedd staff o'r tri sefydliad ynghyd. Datblygwyd modiwl cydweithredol 'Amgylchedd Cymru"' gydag adnoddau cysylltiedig. Mae'n cynnwys cyfres o ddeg darlith a deg tasg safonol a chyfwerth sy'n cwmpasu ystod eang o agweddau ar ddaearyddiaeth Cymru. Mae'n amserol bellach i adolygu'r modiwl gan fod yr adnoddau wedi dyddio, a'r astudiaethau achos angen eu diweddaru, ond gellid ystyried ymhellach agweddau Cymraeg a Chymreig wrth gynllunio'r cwricwlwm.

	Yn naturiol, mae myfyrwyr yn astudio astudiaethau achos sy'n Gymreig eu natur, ond mae hyn yn gosod y cyd-destun i themâu cenedlaethol a rhyngwladol.
Canlyniadau Myfyrwyr	Mae myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn perfformio o leiaf cystal a'u cymhreiriad sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg. Ceir enghreifftiau penodol o fyfyrwyr Cymraeg sy'n ennill gwobrau o fewn eu hysgolion / adrannau a thu hwnt, a bydd y Coleg Cymraeg yn cydweithio gyda'r prifysgolion i dynnu sylw at y llwyddiannau hyn.
Adnoddau	Crewyd amryw adnoddau gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg sy'n cynnwys: • Yr Esboniadur Daearyddiaeth – sef casgliad o dermau ac esboniadau daearyddiaeth. • Fideos llyngyr y rwmen a phosteri y gellid eu defnyddio mewn nosweithiau Clwb Ffermwyr Ifainc neu gydag ysgolion, yn ymddangos ar Llyfrgell y Coleg. • Adnoddau Ystadegol i fyfyrwyr Daearyddiaeth a'r Gwyddorau Daear <http://bit.ly/2tPq7Ay> • Gwerslyfr Daearyddiaeth *Astudio a Dehongli'r Byd a'i Bobl* sy'n pontio rhwng astudiaethau Lefel A a blwyddyn gyntaf yn y brifysgol. • Fideos Amaeth youtube Coleg Sir Gâr. Ceir enghreifftiau hefyd o adnoddau a gafodd eu creu cyn dyfodiad y Coleg, ac awgrymir y dylid ystyried beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r rheini yn y dyfodol (e.e. termau amaeth-amgylcheddol a thermau coedwigaeth). Comisiynwyd Prifysgol Aberystwyth i baratoi Gwerslyfr Daearyddiaeth sy'n pontio rhwng astudiaethau chweched dosbarth ac astudiaethau blwyddyn gyntaf yn y brifysgol. Anelir at ei gyhoeddi yn 2019 a bydd at ddefnydd yr holl sefydliadau sy'n rhan o'r cynllun ac yn cyfrannu at y targed dilyniant.
Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)	Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 fod 29.5% o weithwyr sydd yn y sector amaethyddol, egni a dŵr yn gallu siarad Cymraeg, y ganran uchaf o bob sector yng Nghymru.

	Yn ôl adroddiad Llywodraeth Cymru ar sgiliau Cymraeg, ystyriai 45% o gyflogwyr y sector bwyd-amaeth fod sgiliau Cymraeg yn bwysig i'w busnes.[6] Mae'r un adroddiad yn dangos y defnyddir y Gymraeg yn y gweithle ym mron 50% o sefydliadau'r sector bwyd-amaeth. Mae nifer o raddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yn y meysydd isod: Y maes ymgynghorol Sector Cyhoeddus (e.e. cyngor sir a llywodraeth) Undebau Ffermio Sector Ynni Cyswllt Ffermio Cyfoeth Naturiol Cymru Parciau Cenedlaethol Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cwmnïau porthi anfeiliaid (e.e Wynnstay/CCF/For Farmers) Sector Dŵr Hybu Cig Cymru Addysgu Awgrymir y dylid cryfhau'r cyswllt â rhai o'r sefydliadau hyn er mwyn creu strategaeth eglur sy'n cynorthwyo gofynion recriwtio'r sefydliadau a'u gofynion o ran cydymffurfio â'r safonau iaith.
Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)	Cynigir graddau sylfaen mewn dau sefydliad ac mae cyfle i fyfyrwyr ddilyn trywydd addysg uwch cyfrwng Cymraeg pe dymunent. Rhagwelir bod angen ymgyrch o weithio gydag ysgolion, colegau ac athrawon yn enwedig mewn pynciau lle nad yw dilyniant yr un mor eglur, e.e. Gwyddor Amgylcheddol a Gwyddorau Eigion.

[6] Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector (2014), Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru <http://bit.ly/2v0KFXu>

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn dau sefydliad (1 Daearyddiaeth; 1 Amaeth), ac o leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn tri sefydliad arall. (1 Daearyddiaeth, 1 Gw. Amgylcheddol; 1 Amaeth).	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn tri sefydliad (2 Daearyddiaeth; 1 Amaeth), ac o leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn dau sefydliad arall (1 Gw. Amgylcheddol; 1 Amaeth).	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn tri sefydliad (2 Daearyddiaeth; 1 Amaeth), ac o leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn dau sefydliad arall (1 Gw. Amgylcheddol; 1 Amaeth).
2. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd	120 myfyriwr	160 myfyriwr	200 myfyriwr
3. Staff	Cynnal lefelau staffio presennol gan sicrhau darpariaeth oddi wrth staff a chanddynt rychwant eang o arbenigeddau	Cynnal lefelau staffio presennol gan sicrhau darpariaeth oddi wrth staff a chanddynt rychwant o arbenigeddau	Cynnal lefelau staffio presennol gan sicrhau darpariaeth oddi wrth staff a chanddynt rychwant o arbenigeddau
4. Ysgoloriaethau Ymchwil	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg yn y meysydd a gynrychiolir gan y cynllun bob blwyddyn	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg yn y meysydd a gynrychiolir gan y cynllun bob blwyddyn	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg yn y meysydd a gynrychiolir gan y cynllun bob blwyddyn

5. Dilyniant	Cynnal y radd Sylfaen mewn Amaeth	Cynnal y radd Sylfaen mewn Amaeth	Cynnal y radd Sylfaen mewn Amaeth
	Sefydlu beth yw'r sefyllfa o ran darpariaeth Gymraeg a'r galw o fewn y sector addysg bellach, (e.e. Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria). Mewn meysydd lle nad yw dilyniant o'r ysgol a cholegau addysg bellach yr un mor glir, (e.e. Gwyddor Amgylchedd, Gwyddor Eigion), rhagwelir bod angen ymdrech bellach i weithio gydag ysgolion a cholegau er mwyn annog rhagor o fyfyrwyr i astudio'r cyrsiau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg	Sefydlu beth yw'r sefyllfa o ran darpariaeth Gymraeg a'r galw o fewn y sector addysg bellach, (e.e. Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria)	Sefydlu dull o weithredu yn unol â'r argymhellion o ran cydweithio gyda'r sector addysg bellach
	Cyd-weithio gyda diwydiant.	Cryfhau'r cyswllt gyda rhai o'r sefydliadau amgylcheddol er mwyn adlewyrchu'r galw am fyfyrwyr sydd â sgiliau dwyieithog ac sy'n ateb eu gofynion recriwtio	
6. Adnoddau	Ystyried diwygio a sicrhau defnydd ehangach o ddeunyddiau a grëwyd eisoes	Cyhoeddi a sicrhau defnydd eang o'r adnodd "Astudio a Dehongli'r Byd a'i Bobl" (adnoddau a dilyniant)	

7. Ôl-radd	Cynnal o leiaf un cwrs Meistr sy'n gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Meistr y Coleg a datblygu darpariaeth mewn sefydliadau eraill	Cynnal o leiaf un cwrs Meistr sy'n gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Meistr y Coleg a datblygu darpariaeth mewn sefydliadau eraill	Cynnal o leiaf un cwrs Meistr sy'n gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Meistr y Coleg a datblygu darpariaeth mewn sefydliadau eraill

	Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	**Pwnc**	**Nod gweithredu**	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
Prifysgol Abertawe	Daearyddiaeth	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg
		Myfyrwyr	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
		Staff	O leiaf 2 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 4 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 4 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
Prifysgol Aberystwyth	Daearyddiaeth	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg
		Myfyrwyr	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

		Staff	5 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	5 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	5 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
		Ôl-radd		Datblygu modiwl traethawd hir cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr ar y cyrsiau Meistr integredig	Cynnal modiwl traethawd hir cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr ar y cyrsiau Meistr integredig
		Adnodd	Cychwyn ar ddrafftio Gwerslyfr Daearyddiaeth *Astudio a Dehongli'r Byd a'i Bobl* (adnoddau a dilyniant)	Cwblhau Gwerslyfr Daearyddiaeth *Astudio a Dehongli'r Byd a'i Bobl* sy'n pontio rhwng astudiaethau Lefel A ac astudiaethau blwyddyn gyntaf yn y brifysgol (adnoddau a dilyniant)	Marchnata'r adnodd a'i ddatblygu ymhellach yn ôl yr angen
				Creu adnodd digidol o esboniadau am gysyniadau sy'n gysylltiedig â'r maes llafur Safon Uwch	Marchnata'r adnodd a'i ddatblygu ymhellach yn ôl yr angen
		Dilyniant		Datblygu cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) er mwyn meithrin cysylltiadau ag athrawon sy'n addysgu Safon Uwch Daearyddiaeth	Cynnal cwrs pontio ar gyfer myfyrwyr Lefel A blwyddyn 2 Cynnal cysylltiadau ag athrawon sy'n addysgu Safon Uwch

					Daearyddiaeth drwy gynnig cyfleoedd DPP
	Amaeth a Gwyddorau Amgylcheddol	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg
		Myfyrwyr	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
		Staff	2 aelod o staff CALl, gydag 8 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	2 aelod o staff CALl, gydag 8 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	2 aelod o staff CALl, gydag 8 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
		Adnoddau a dilyniant	Creu mwy o adnoddau dwyieithog a datblygu perthynas â diwydiant er mwyn cael mewnbwn gan fusnes / ymchwil a sicrhau dilyniant o fyfyrwyr disglair o ysgolion a cholegau	Creu mwy o adnoddau dwyieithog a datblygu perthynas â diwydiant er mwyn cael mewnbwn gan fusnes / ymchwil a sicrhau dilyniant o fyfyrwyr disglair o ysgolion a cholegau	Creu mwy o adnoddau dwyieithog a datblygu perthynas â diwydiant er mwyn cael mewnbwn gan fusnes / ymchwil a sicrhau dilyniant o fyfyrwyr disglair o ysgolion a cholegau
Prifysgol Bangor	Gwyddor Amgylcheddol	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg

		Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
		Staff	5.5 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	5.5 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	5.5 aelod o staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
		Dilyniant	Sefydlu cysylltiadau cadarn a hir dymor gyda 12 o ysgolion uwchradd neu golegau addysg bellach	Cynnal cysylltiadau cadarn a hir dymor gyda 12 o ysgolion uwchradd neu golegau addysg bellach	Cynnal cysylltiadau cadarn a hir dymor gyda 12 o ysgolion uwchradd neu golegau addysg bellach
			Darparu sesiynau addysgu/adolygu yn yr ysgolion (isafswm o 16 y flwyddyn)	Darparu sesiynau addysgu/adolygu yn yr ysgolion (isafswm o 16 y flwyddyn)	Darparu sesiynau addysgu/adolygu yn yr ysgolion (isafswm o 16 y flwyddyn)
			Gweithdai ymarferol yn y Brifysgol (isafswm o 4)	Gweithdai ymarferol yn y Brifysgol (isafswm o 4)	Gweithdai ymarferol yn y Brifysgol (isafswm o 4)
			Darparu deunydd dysgu cefnogol ar gyfer y dosbarth (e.e. gwerslyfrau, pecynnau fideo byr)	Darparu deunydd dysgu cefnogol ar gyfer y dosbarth, (e.e. gwerslyfrau, pecynnau fideo byr)	Darparu deunydd dysgu cefnogol ar gyfer y dosbarth (e.e. gwerslyfrau, pecynnau fideo byr)

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - Coleg Sir Gâr	Amaeth	Darpariaeth	120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn ar y radd Sylfaen FdSC a gradd BSc mewn Amaeth drwy gyfrwng y Gymraeg	120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn ar y radd Sylfaen FdSC a gradd BSc mewn Amaeth drwy gyfrwng y Gymraeg	120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn ar y radd Sylfaen FdSC a gradd BSc mewn Amaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
		Myfyrwyr	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
		Staff	2 aelod rhan-amser sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 5 aelod llawn amser yn cyfrannu at y ddarpariaeth	2 aelod rhan-amser sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 5 aelod llawn amser yn cyfrannu at y ddarpariaeth	2 aelod rhan-amser sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 5 aelod llawn amser yn cyfrannu at y ddarpariaeth